Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Ysgol Gynradd Caegarw – Prosiect Beiciau Balans

Buon ni'n cyfarfod gyda'r ysgol er mwyn datblygu prosiect fel rhan o'n Cronfa Ysgol Sylfaenol. Mae'r gronfa yma'n caniatáu i ysgolion ffocws ymgeisio am gyllid i ddatblygu prosiectau ar gyfer plant yn y dosbarthiadau babanod (meithrin hyd at flwyddyn 2). Cafodd y Gronfa ei sefydlu er mwyn annog ysgolion i ganolbwyntio mwy ar eu darpariaeth cadw'n heini ar gyfer y grŵp oedran yma.

Roedd yr ysgol eisiau cynyddu nifer y plant yn yr ysgol oedd yn gallu reidio beic. Roedden nhw eisiau i'r disgyblion iau gael mynediad at feiciau balans er mwyn eu helpu nhw i ddatblygu eu llythrennedd corfforol. Bydd gwella'u sgiliau symud sylfaenol, hyder a chymhelliant yn eu helpu nhw i fod yn heini a beicio pan maen nhw'n hŷn. Yn rhan o'r cyllid, cawson nhw feiciau balans a helmedau, ynghyd â hyfforddiant ar gyfer eu hathrawes. Yn dilyn yr hyfforddiant, cafodd clwb beiciau balans ar ôl ysgol ei sefydlu. Dim ond lle i 5 disgybl oedd yn y clwb, er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn derbyn llawer o sylw i ddatblygu eu sgiliau a hyder. Cafodd y sesiynau eu cynnal am 6 wythnos gan gynnwys cymysgedd o weithgareddau ar ac oddi ar y beic. Doedd rhai o'r plant erioed wedi bod ar feic o'r blaen.

Yn y sesiwn olaf, cafodd teuluoedd y plant wahoddiad i'r plant arddangos beth roedden nhw wedi'i ddysgu. Mae'r ysgol hefyd wedi bod yn cynnal cynllun rhentu beiciau balans yn yr ysgol, gan ganiatáu i deuluoedd rentu beiciau ar gyfer y penwythnos a gwyliau ysgol. Wedi inni holi, dywedodd 100% o'r plant eu bod nhw yn mwynhau'r clwb, yn teimlo'n fwy hyderus yn reidio beic, ac eisiau parhau i reidio beic.



> *"Mae wedi bod yn wych i weld hyder y plant yn cynyddu a'u sgiliau'n gwella bob wythnos"* Athrawes
>
> *"Mae hi wedi cael beic balans ers sbel ond erioed wedi dangos cymaint o ddiddordeb, ond ers y clwb yma, mae hi'n ei ddefnyddio drwy'r amser"* Rhiant

**5** o blant wedi cymryd rhan

**100%** eisiau parhau i reidio beic

**6** sesiwn wedi'u darparu

**100%** yn teimlo'n fwy hyderus yn reidio beic

**100%** yn mwynhau'r clwb

RHONDDA CYNON TAF